

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd
DYDDIAD	19 Tachwedd 2019
PWNC	Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig (2018/19) a gyhoeddwyd a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'n prosesau.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau ar wella'r trefniadau ymhellach
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith

1. CEFNDIR

1.1 Fel y gwyddoch mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i:

- bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi ac
- awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF A GWELLIANNAU ELENİ

2.1 Nodir isod y nifer o Aelodau Etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

2012/13	8 adroddiad (peilot o'r drefn)
2013/14	26 adroddiad (gan ddefnyddio templed am y tro cyntaf)
2014/15	39 adroddiad
2015/16	29 adroddiad
2016/17	Ni chynhyrchwyd adroddiadau
2017/18	16 adroddiad
2018/19	17 adroddiad

- 2.2 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx>
- 2.3 Dros y blynyddoedd mae Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr adroddiadau blynyddol lawer gwaith, gyda'r nôd parhaus o gynhyrchu adroddiadau gweledol deniadol, o geisio symleiddio'r broses i'w cynhyrchu tra'n cadw o fewn y canllawiau ar gyfer yr adroddiadau.
- 2.4 Eleni, penderfynwyd symleiddio'r broses ymhellach, gan ofyn i Aelodau Etholedig ateb dau gwestiwn ar ffurf e-bost yn unig fel a ganlyn:
- Beth oedd eich prif weithgareddau etholaethol a chymunedol dros y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019?
 - Pa gyfarfodydd y bu i chi eu mynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019 yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn eich ystadegau presenoldeb ar y wefan? (Bydd y Tîm yn trefnu i osod dolen i'ch manylion ar y we) .
- 2.5 Roedd yr amserlen eleni yn llawer tynnach na'r hyn a fu yn y gorffennol, gyda'r nôd o sicrhau cyhoeddi yr adroddiadau ar y safle we yn ddwyieithog cyn yr haf. Roedd y camau fel a ganlyn:
- **Erbyn 21 Mehefin** gofynnwyd i Aelodau gyflwyno ymateb drafft mewn un iaith i'r Gwasanaeth Democratiaeth ar gyfer eu gwirio.
 - Ymestynnwyd y dyddiad ymateb i **4 Gorffennaf**.
 - Yn dilyn cytuno ar y fersiwn derfynol trefnodd y Gwasanaeth gyfieithiad o'r adroddiad blynyddol
 - Ar **19 Gorffennaf** cwblhawyd y gwaith a chyhoeddwyd yr adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor

Bu'r broses yn llawer esmwythach i'r Aelodau a'r Swyddogion eleni ar gyfer cynhyrchu adroddiadau 2018/19. Tybir mai'r rhesymau am hyn yw:

- Nad oedd templed i'w gwblhau, yn hytrach 2 gwestiwn oedd angen sylw yr Aelodau
- Nid oedd gwaith trosglwyddo rhwng un rhaglen gyfrifiadurol a'r llall
- Dilëwyd nifer o gamau gwastraff o'r prosesau cefndirol, camau nad oedd yn ychwanegu gwerth
- Blaenoriaethwyd y gwaith gan swyddogion er mwyn ei gwblhau yn amserol

3. ARGYMHELLIAD:

- (i) Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno unrhyw sylwadau ar wella'r trefniadau ymhellach.